

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru

17 Gorffennaf 2018

Annwyl Huw

Craffu ar gyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) etc

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 5 Gorffennaf 2018. Fel y gwyddoch, byddem fel arfer yn ystyried yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon, y Cynllun Blynyddol a'r adroddiad RSM yn ystod ein sesiwn graffu yn yr hydref. Fodd bynnag, y tro hwn, gan eich bod ar fin gadael eich swydd, roedd y Pwyllgor yn awyddus i sicrhau ei fod yn gallu cael tystiolaeth gennych chi mewn perthynas â chyfrifon terfynol WAO, a baratowyd gennych yn eich rôl fel Swyddog Cyfrifyddu. Roedd hon yn sesiwn ddefnyddiol, ond roeddwn am ichi wybod na fyddwn yn cyflwyno adroddiad arni tan yr hydref pan fyddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad ar amcangyfrif WAO. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Pwyllgor, erbyn 22 Tachwedd ond, os hoffech gael copi caled, rhowch wybod i'm tîm clericio.

Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014 (PAWA)

Yn y sesiwn ar 5 Gorffennaf, fe wnaethom hefyd drafod newidiadau posibl i'r PAWA. Roedd y Pwyllgor yn ddiolchgar am y wybodaeth a gafwyd gennych yn ystod y sesiwn dystiolaeth ac yn falch o'r cyfle i ystyried y Ddeddf ddiwygiedig / y Bil drafft a'r Nodiadau Esboniadol. Er bod y Pwyllgor yn nodi'ch pryderon



ynghylch y ddeddfwriaeth, cyn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid symud ymlaen, credwn y bydd yn rhaid inni ystyried barn Adrian Crompton, pan fydd yn ymgymryd â'i swydd fel Archwilydd Cyffredinol newydd Cymru, felly byddwn yn trafod hyn ag Adrian pan fyddwn yn ei gyfarfod yn nhymor yr hydref.

I gloi, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch ichi am y gwaith rydych wedi'i gyflawni yn Swyddfa Archwilio Cymru dros y saith mlynedd diwethaf ac, fel Pwyllgor, rydym yn dymuno'n dda i chi yn y dyfodol.

Yn gywir



Simon Thomas

Cadeirydd

